

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) Llywodraeth Cymru ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd

Ionawr 2022



1. Cefndir

1. Cyflwynwyd Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd ('y Bil') yn wreiddiol yn Nhŷ'r Cyffredin, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 9 Mawrth 2021.¹ Caiff ei noddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cafodd y Bil² ei ailgyflwyno ar 18 Mai 2021 yn dilyn cynnig cario drosodd.
2. Cwblhaodd y Bil ei gyfnodau yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Gorffennaf 2021. Fe'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 6 Gorffennaf 2021³ a chwblhaodd gyfnod y pwyllgor ar 24 Tachwedd 2021.⁴ Ar adeg cytuno ar yr adroddiad hwn, roedd y Bil yn y cyfnod Adrodd.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

3. Ar 28 Mai 2021, gosododd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol⁵ (y Memorandwm gwreiddiol) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.
4. Gwnaethom gyflwyno adroddiad⁶ (adroddiad cyntaf) ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 14 Hydref 2021. Ymatebodd y Gweinidog i'n hadroddiad ar 12 Tachwedd 2021.⁷

¹ Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd [Bil Tŷ'r Cyffredin 268, 2019-21]

² Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd [Bil Tŷ'r Cyffredin 5, 2021-22]

³ Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd [Bil Tŷ'r Arglwyddi 40]

⁴ Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, [Bil Tŷ'r Arglwyddi 72, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor]

⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Mai 2021

⁶ Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Hydref 2021

⁷ Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 12 Tachwedd 2021

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

5. Ar 5 Tachwedd 2021, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol⁸ (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil.
6. Gwnaethom gyflwyno adroddiad (ail adroddiad) ar Femorandwm Rhif 2 ar 25 Tachwedd 2021.⁹ Ymatebodd y Gweinidog i'n hadroddiad ar 7 Ionawr 2022.¹⁰

Crynodeb o'n hadroddiad cyntaf a'n hail adroddiad

7. Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau a ganlyn:
- Cymal 1 (Adroddiad ar gyfamod yr heddlu);
 - Cymal 2 (Cynnydd yn y gosb am ymosodiadau ar weithwyr y gwasanaethau brys);
 - Cymalau 7 i 22 (Swyddogaethau'n ymwneud â thrais difrifol);
 - Cymalau 23 i 35 (Adolygiad o laddiad gydag arfau tramgwyddus);
 - Cymalau 36 i 37 a 40 i 42 (Echdynnu gwybodaeth o ddyfeisiau electronig);
 - Cymal 46 (Difrod troseddol i gofebion: dull y treial).¹¹
8. Hefyd, pwysleisiodd fod Llywodraeth Cymru yn argymhell, bryd hynny, y dylai'r Senedd wrthod cydsynio ar gyfer cymalau 9, 17, 18 a 46.
9. Nid oeddem yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau a ganlyn,¹² oherwydd, yn ein barn ni, maent y tu allan i'r prawf diben datganoledig a nodir yn Rheol Sefydlog 29.¹³:

⁸ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\), Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd](#), Tachwedd 2021

⁹ Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\) Llywodraeth Cymru ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd](#), Tachwedd 2021

¹⁰ [Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol](#), 7 Ionawr 2022 (llythyr cyntaf)

¹¹ Cymal 47 ym Mil Tŷ'r Arglwyddi 72 (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor)

¹² Nid yw cymal 43 wedi'i restru gan ei fod yn wall teipograffyddol yn y Memorandwm gwreiddiol (gweler paragraffau 45-47 ac argymhelliad 2 yn ein hadroddiad cyntaf a llythyr y Gweinidog dyddiedig 12 Tachwedd 2021).

- Cymalau 54 i 55 (Gorymdeithiau a chynullïadau cyhoeddus);¹⁴
- Cymal 59 (Achosï niwsans cyhoeddus yn fwriadol neu'n ddi-hid);¹⁵
- Cymal 60 (Gosod amodau ar brotestïadau un person);¹⁶
- Cymal 61 i 63 (gwersylloedd diawdurdod).¹⁷

10. Hefyd, pwysleisïom y bu Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai'r Senedd wrthod cydsynïo ar gyfer cymalau 54, 55, 60, 61, 62 a 63.

11. Yn ein hail adroddïad, gwnaethom nodi, yn dilyn gwellïant i'r Bil, fod Llywodraeth Cymru bellach yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsynïad i gymalau 9, 17 a 18.

Adroddïadau Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddïo Tŷ'r Arglwyddï

12. Yn ein hadroddïad cyntaf ar y Memorandwm gwreiddïol, gwnaethom dynnu sylw at adroddïad Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddïo Tŷ'r Arglwyddï.¹⁸ Mae Llywodraeth y DU wedi ymateb¹⁹ i'r adroddïad hwn (ac adroddïad dilynol). Mae Cadeirydd y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddïo wedi dweud bod Llywodraeth y DU wedi ystyried y nifer fawr o argymhellïon a wnaed ac wedi derbyn y mwyafrif ohonynt.²⁰

¹³Fel y gwnaethom nodi yn ein hadroddïad cyntaf, wrth ystyried a oes angen cydsynïad ar gymal penodol, rydym wedi defnyddïo'r "prawf diben" a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1(i), h.y. a oes gan y ddarparïaeth ddiben datganoledig.

¹⁴ Cymalau 55 i 56 ym Mil Tŷ'r Arglwyddï 40; cymalau 56 i 57 ym Mil Tŷ'r Arglwyddï 72 (fel y'u diwygiwyd yn y Pwyllgor)

¹⁵ Cymal 60 ym Mil Tŷ'r Arglwyddï 40; cymal 61 ym Mil Tŷ'r Arglwyddï 72 (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor)

¹⁶ Cymal 61 ym Mil Tŷ'r Arglwyddï 40; cymal 62 ym Mil Tŷ'r Arglwyddï 72 (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor)

¹⁷ Cymalau 62 i 64 ym Mil Tŷ'r Arglwyddï 40; cymalau 63 i 65 ym Mil Tŷ'r Arglwyddï 72 (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor)

¹⁸Y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddïo, Tŷ'r Arglwyddï, Chweched Adroddïad Sesiwn 2021–22, **Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddï Barnwrol**, Medi 2021, Papur Tŷ'r Arglwyddï 65

¹⁹ Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddïo, Tŷ'r Arglwyddï, 15fed Adroddïad Sesiwn 2021–22, **Health and Care Bill, Cigarette Stick Health Warnings Bill [HL], House of Lords (Hereditary Peers) (Abolition of By-Elections) Bill [HL], Police, Crime, Sentencing and Courts Bill: Government Responses**, 16 Rhagfyr 2021, Papur Tŷ'r Arglwyddï 133, Atodiad 1

²⁰ **Dadl Tŷ'r Arglwyddï. 8 Rhagfyr 2021. cyf 816 col 1973**

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) Llywodraeth Cymru

13. Ar 20 Rhagfyr 2021, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol²¹ (Memorandwm Rhif 3) ar gyfer y Bil. Mae Memorandwm Rhif 3 yn ymwneud â gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil²² yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 1 Rhagfyr 2021. Mae'n nodi'r canlynol:

*"Mae'r memorandwm hwn wedi'i osod cyn gynted â phosibl ar ôl i'r gwelliannau hyn gael eu cyflwyno, gan ganiatáu dadansoddiad llawn o'u heffaith."*²³

14. Ar 7 Ionawr 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall (Memorandwm Rhif 4) ar gyfer y Bil. Mae Memorandwm Rhif 4 yn ymwneud â manylion cymal newydd yn y Bil na chyfeiriwyd ato'n flaenorol, a diwygiad a gyflwynwyd i'r Bil²⁴ yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Ionawr 2022, y mae angen cydsyniad y Senedd yn ei gylch.

15. Hefyd, cawsom lythyr gan y Gweinidog ar 7 Ionawr 2022 a nododd:

"Ym Memorandwm (Rhif 3), fy nod oedd amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a osodwyd ar 1 Rhagfyr 2021, sy'n effeithio ar faterion datganoledig a hefyd ailddatgan safbwynt Llywodraeth Cymru ar weddill cymalau'r Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd, yn fy marn i. Fodd bynnag, o ganlyniad i bwysau amser gwnaethom hepgor cymalau 1, 2, 23-30, 32-35, 37-38, 41 a 43 a chynnwys cymal 40 mewn camgymeriad. I nodi, ymdrinwyd â chymalau 1, 2, 23-37, 41 a 43 yn llawn yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 28 Mai 2021. Ers hynny, rwyf wedi gosod Memorandwm (Rhif 4) sy'n cywiro'r camgymeriadau hyn ac sydd hefyd yn cynnwys manylion cymal 38 sydd wedi'i fewnosod o'r newydd a'm safbwynt i arno, a'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 4 Ionawr 2022 sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Mae Memorandwm (Rhif 4) yn cynnig golwg cyflawn ar y cymalau perthnasol, gan fynd i'r afael â'r hepgoriadau blaenorol a darparu golwg

²¹ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 3\), Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd](#), Rhagfyr 2021

²² Bil Tŷ'r Arglwyddi 72 (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor)

²³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 4

²⁴ Bil Tŷ'r Arglwyddi 72 (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor)

cynhwysfawr ar y cymalau sy'n effeithio ar faterion datganoledig. Rwy'n argymhell ei ddefnyddio fel eich pwynt cyfeirio cyntaf wrth ystyried y Bil."²⁵

16. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4 erbyn 18 Ionawr 2022.²⁶

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y'i diwygiwyd

17. Mae paragraffau 19 a 20 o Femorandwm Rhif 4 yn rhoi crynodeb o'r darpariaethau yn y Bil y mae'r Gweinidog yn argymhell y dylai'r Senedd roi cydsyniad iddynt neu wrthod rhoi cydsyniad iddynt, yn eu trefn.

18. Mae'r Memorandwm yn dod i'r casgliad a ganlyn:

"Ceir darpariaethau yn y Bil hwn yr ydym yn eu croesawu ac sy'n cyd-fynd â'n polisiau. O ran darpariaethau o'r fath, rwyf yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r cymalau hynny, fel y'u rhestrir ym mharagraff 19 am y rhesymau a nodir ymhellach ym mharagraffau 21 i 27.

*"Fodd bynnag, ceir darpariaethau yn y Bil hwn nad ydynt yn cyd-fynd â'n polisiau. O ran darpariaethau o'r fath, rwy'n argymhell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad i'r cymalau hynny, fel y'u rhestrir ym mharagraff 20, am y rhesymau a nodir ymhellach ym mharagraffau 28 i 30."*²⁷

²⁵ Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 7 Ionawr 2022 (ail lythyr)

²⁶ Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) - Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Ionawr 2022; Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) ar gyfer Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Ionawr 2022.

²⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 4, paragraffau 32-33

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

19. Trafodwyd Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4 yn ein cyfarfod ar 10 Ionawr 2022.²⁸

Ein barn ni

Sylwadau cyffredinol

20. Gosodwyd Memorandwm Rhif 3 dros y toriad ar 20 Rhagfyr 2021 mewn cysylltiad â gwelliannau a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 1 Rhagfyr 2021. Gosodwyd Memorandwm Rhif 4 dros y toriad hefyd ar 7 Ionawr 2022 mewn cysylltiad â diwygiadau a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Ionawr 2022. Rydym yn nodi hefyd y gwnaeth Memorandwm Rhif 4 gywiriadau i gynnwys Memorandwm Rhif 3.

21. Nid ydym wedi cael amser i graffu'n llawn ar y materion a godwyd ym Memorandwm Rhif 3 na Memorandwm Rhif 4. Rydym yn cydnabod bod hyn yn rhannol yn deillio o ddiwygiadau a gyflwynwyd ar ddiwedd y broses deddfwriaethol yn Senedd y DU. Rydym yn nodi, o ran Memorandwm Rhif 3, bod Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod wedi ei osod "cyn gynted â phosibl ar ôl i'r gwelliannau hyn gael eu cyflwyno",²⁹ a hefyd ei bod wedi tynnu sylw at gymhlethdod y Bil.³⁰ Fodd bynnag, o ystyried bod y Bil wedi'i gyflwyno i Senedd y DU ym mis Mai 2021, credwn y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU mewn modd y byddai'n sicrhau bod Memorandwm Rhif 3 yn cael ei gyhoeddi'n gynharach.

Casgliad 1. Mae darparu gwybodaeth amserol a chywir mewn memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn hanfodol er mwyn galluogi'r Senedd a'i phwyllgorau i graffu ar Lywodraeth Cymru, ac i'w dwyn i gyfrif, am ei defnydd (ym mhob achos) o Fil y DU i wneud darpariaethau deddfwriaethol mewn maes datganoledig.

22. Yn y paragraffau a ganlyn, mae'r cyfeiriadau at 'gymalau' yn cyfeirio at gymalau yn y Bil fel y'i diwygiwyd ar 24 Tachwedd 2021 yn Nhŷ'r Arglwyddi.³¹

²⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 10 Ionawr 2022

²⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 4

³⁰ Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 7 Ionawr 2022 (ail lythyr)

³¹ Bil Tŷ'r Arglwyddi 72 (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor)

Y cymalau y mae Llywodraeth Cymru yn argymhell rhoi cydsyniad ar eu cyfer

- 23.** Rydym yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y rhestr o gymalau a nodir ym mharagraff 19 ym Memorandwm Rhif 4, ac eithrio cymal 61. Roedd ein dau adroddiad blaenorol yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'r cymalau hyn; rydym yn rhoi sylwadau isod ar gymal 38 a'r cymal newydd y cyfeirir ato ym Memorandwm Rhif 4.
- 24.** Mae cymal 38 o'r Bil yn nodi gofynion sy'n nodi pryd yr ystyrir bod person wedi darparu dyfais electronig yn wirfoddol at ddibenion cymalau 36 a 37. Mae Memorandwm Rhif 4 yn nodi bod y cyfeiriad at gymal 38 wedi'i hepgor o femoranda atodol blaenorol o ystyried cymhlethdod y Bil a nifer y gwelliannau a osodwyd gan Lywodraeth y DU.³² Mae Memorandwm Rhif 4 hefyd yn nodi bod cymal 38 yn atodol i gymalau 36 a 37³³ a bod angen rhoi cydsyniad.³⁴
- 25.** Yn ein hadroddiad cyntaf, cytunwyd â Llywodraeth Cymru fod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 36 a 37.³⁵ Rydym hefyd yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 38.
- 26.** Mae gwelliant a gyflwynwyd ar 4 Ionawr 2022 yn Nhŷ'r Arglwyddi yn cynnig cymal newydd i gynyddu cosbau o dan y *Night Poaching Act 1828*, a *Game Act 1831*, er mwyn atal ymhellach hela sgwarnogod, sy'n aml yn cael ei wneud ar dir rhywun arall heb ganiatâd. Mae hefyd yn diwygio ymhellach *Game Laws (Amendment) Act 1960* fel y gellir fforffedu cerbyd ni waeth faint o bobl sy'n cyflawni troseddau'r *Game Act*.
- 27.** Mae Memorandwm Rhif 4 yn nodi:

"Mae'r ffordd yr ydym yn trin ein hanifeiliaid yn adlewyrchiad pwysig o werthoedd ein cymdeithas. Yn ogystal â bod yn fater o les anifeiliaid, gall troseddu er mwyn hwyluso hela ysgyfarnogod gael effaith ehangach hefyd. Gall hyn gynnwys fandaleiddio eiddo, ffermwyr a thirfeddianwyr yn colli incwm, lladrata, bygythiadau a phroblemau traffig ar y ffyrdd gan gynnwys gyrru cerbydau heb drwydded ac yswiriant. Er mai'n anaml y mae hela ysgyfarnogod yn digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai llawer o'r troseddwyd sy'n cymryd rhan mewn hela

³² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 4, paragraff 16

³³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 4, paragraff 17

³⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 4, paragraff 25

³⁵ Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Hydref 2021, paragraffau 32 a 38-41

ysgyfarnogod yn Lloegr yn symud eu digwyddiadau i Gymru pe bai deddfwriaeth i Loegr yn unig yn cael ei chyflwyno.

*Felly, rwy'n argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r cymal hwn.*³⁶

28. Wedi cymhwyso'r prawf 'diben datganoledig' fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 29.1 (h.y. a oes gan y ddarpariaeth ddiben datganoledig), rydym yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd.

29. Rydym hefyd am nodi ein barn ar gymal 61³⁷ o'r Bil, sy'n disodli'r drosedd cyfraith gwlad niwsans cyhoeddus. Mae gwelliant a gyflwynwyd i'r cymal hwn yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 1 Rhagfyr 2021 yn egluro mai dim ond pan fydd gweithred neu anweithred person wedi achosi niwed difrifol i'r cyhoedd neu adran o'r cyhoedd, neu wedi creu risg o niwed, y bydd y drosedd o niwsans cyhoeddus yn cael ei chyflawni. Ychwanegir diffiniad o "niwed difrifol" ar wyneb y Bil.

30. Mae Memorandwm Rhif 4 yn parhau i argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r darpariaethau hyn, gan nodi'r hyn a ganlyn:

*"Er bod trefn gyhoeddus yn fater a gadwyd yn ôl, mae'r elfennau sŵn yn y cymalau hyn yn ymwneud â materion iechyd yr amgylchedd, sydd wedi'u datganoli i'r Senedd ac i Weinidogion Cymru. Rydym yn cefnogi'r cymal ynghylch diogelu trigolion rhag cynnydd mewn llygredd sŵn. Am y rheswm hwn, gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymal hwn ar 28 Mai lle'r argymhellais fod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r cymal.*³⁸

31. Fodd bynnag, yn ein hadroddiad cyntaf ar y cymal hwn, mynegwyd anfodlonrwydd ag esboniad y Gweinidog ynghylch pam yr oedd yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwn.³⁹ Rydym yn parhau i fod o'r farn nad oes angen cydsyniad y Senedd gan fod y ddarpariaeth y tu allan i'r prawf diben datganoledig a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1. Y rheswm am hyn yw mai prif ddiben y ddarpariaeth yw cynnal trefn gyhoeddus a tharfu cyn lleied â

³⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 4, paragraff 26

³⁷ Cymal 59 ym Mil Tŷ'r Cyffredin 5

³⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 4, paragraff 27

³⁹ Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Hydref 2021, paragraffau 53-54

phosibl ar y cyhoedd cyfagos. Mae trefn gyhoeddus yn fater a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).⁴⁰

Y cymalau y mae Llywodraeth Cymru yn argymhell na ddylid rhoi cydsyniad ar eu cyfer

- 32.** Rydym yn nodi'r rhestr o gymalau y mae Llywodraeth Cymru'n argymhell na ddylid rhoi cydsyniad ar eu cyfer, fel y nodir ym mharagraff 20 ym Memorandwm Rhif 4.
- 33.** Mewn cysylltiad â chymal 47 (Difrod troseddol i gofebau: dull treial),⁴¹ fel y nodwyd yn ein hadroddiad cyntaf, rydym yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd.⁴²
- 34.** Fodd bynnag, yn unol â'n hadroddiad cyntaf, rydym yn anghytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 56 a 57, a 62 i 65.
- 35.** Mae cymalau 56⁴³ a 57⁴⁴ o'r Bil yn diwygio adrannau o *Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986* (Deddf 1986) drwy ehangu'r amgylchiadau lle mae gan swyddogion heddlu'r pŵer i osod amodau ar orymdeithiau cyhoeddus a chynulladau cyhoeddus. Mae Cymal 62⁴⁵ hefyd yn diwygio Deddf 1986 ac mae'n ymwneud â gosod amodau ar brotestiadau un person.
- 36.** Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd i'r cymalau hyn yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 1 Rhagfyr 2021 yn disodli'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch ystyr "tarfu difrifol" gyda darpariaethau sy'n gosod y diffiniad ar wyneb y Bil, yn ddarostyngedig i bŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ei ddiwygio drwy reoliadau.
- 37.** Mae Memorandwm Rhif 4 yn nodi:

"Er bod trefn gyhoeddus yn fater a gadwyd yn ôl, mae'r elfennau swm yn y cymalau hyn yn ymwneud â materion iechyd yr amgylchedd, sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru. Rydym yn cefnogi'r cymal o ran amddiffyn trigolion rhag mwy o lygredd swm, ond cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw hyn. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru bwerau i gyfarwyddo'r heddlu mewn

⁴⁰ Paragraff 40 o Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*

⁴¹ Cymal 46 ym Mil Tŷ'r Cyffredin 5

⁴² Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, Hydref 2021, paragraffau 32 a 42

⁴³ Cymal 54 ym Mil Tŷ'r Cyffredin 5

⁴⁴ Cymal 55 ym Mil Tŷ'r Cyffredin 5

⁴⁵ Cymal 60 ym Mil Tŷ'r Cyffredin 5

perthynas â lefelau sŵn, mae ganddi gyfrifoldeb cyffredinol dros leihau sŵn ac mae'n gyfrifol am gyfarwyddo awdurdodau lleol ar y mater hwn. Nid yw'r ddeddfwriaeth wedi'i diffinio'n glir ac felly mae'n anodd asesu ei goblygiadau o ran cyfrifoldebau Awdurdodau Datganoledig Cymreig. Am y rheswm hwn, gosodwyd memorandwm mewn perthynas â'r cymalau hyn ar 28 Mai lle'r argymhellais y dylai'r Senedd wrthod cydsynio iddynt.

Mae'r cymalau hyn wedi'u diwygio fel y nodir ym mharagraff 14 a gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â'r cymalau hyn ar 20 Rhagfyr lle, unwaith eto, yr argymhellais y dylai'r Senedd atal ei chydsyniad iddynt.

Rwy'n parhau i argymhell bod y Senedd yn atal ei cydsyniad i gymalau 56, 57 a 62.⁴⁶

38. Rydym yn parhau i fod o'r farn nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau hyn gan fod y darpariaethau y tu allan i'r prawf diben datganoledig a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1. Er bod y darpariaethau yn ymwneud â rheoli lefelau sŵn gormodol, prif ddiben y darpariaethau yw cynnal trefn gyhoeddus a tharfu cyn lleied â phosibl ar y cyhoedd cyfagos. Fel y nodir uchod (ym mharagraff 31), mae trefn gyhoeddus yn fater a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

39. Mae cymalau 63 i 65⁴⁷ yn ymwneud â gwerysilloedd diawdurdod. Mae cymal 65 yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi canllawiau i'r heddlu ynghylch eu swyddogaethau mewn perthynas â thresmaswyr ar dir. Mae gwelliant a gyflwynwyd i'r cymal hwn yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 1 Rhagfyr 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol gael eu gosod gerbron Senedd y DU.

40. Mae Memorandwm Rhif 4 yn nodi:

"Nid yw ymagwedd Llywodraeth Cymru o ran rheoli gwerysilloedd diawdurdod wedi newid. Rydym yn canolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau ac ar fuddsoddi ar gyfer darpariaeth ddigonol o safleoedd awdurdodedig a galluogi awdurdodau lleol i fodloni gofynion llety (preswyl a chlodiant) cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r maes gwaith hwn yn cael blaenoriaeth unwaith yn rhagor yn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb

⁴⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 4, paragraff 29.

⁴⁷ Cymalau 61-63 ym Mil Tŷ'r Cyffredin 5

Hiliol, sy'n cynnwys nod penodol o fynd i'r afael yn well ag anghenion llety'r cymunedau hyn. Am y rheswm hwn, gosodwyd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymalau hyn ar 28 Mai, lle'r oeddwn yn argymhell bod y Senedd yn gwrthod cydsynio iddynt.

Rwy'n parhau i argymhell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad i gymalau 63 a 64.

Mae cymal 65 wedi'i ddiwygio fel y nodir ym mharagraff 12 a gosodwyd memorandwm atodol (Memorandwm Rhif 3) mewn perthynas â'r cymal hwn ar 20 Rhagfyr lle, unwaith eto, yr argymhellais y dylai'r Senedd atal ei chydsyniad i'r cymal hwn.

Rwy'n parhau i argymhell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad i gymal 65.⁴⁸

41. Rydym yn parhau i fod o'r farn nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 63 i 65 gan mai prif ddiben y darpariaethau yw cynnal trefn gyhoeddus felly mae'r ddarpariaeth y tu allan i'r prawf diben datganoledig a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1. Eto, fel y nodwn uchod, mae trefn gyhoeddus yn fater a gedwir yn ôl o dan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Ystyriaethau eraill

42. Mae paragraff 3 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi, o'r 91 o welliannau i'r Bil a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 1 Rhagfyr 2021, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer 15 ohonynt. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi bod paragraffau 9 i 13 o Femorandwm Rhif 3 yn rhestru 18 o gymalau sy'n cael eu diwygio yn sgil y gwelliannau a gyflwynwyd.

Argymhelliad 1. Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, dylai'r Gweinidog egluro'r gwahaniaeth rhwng y ffigur a nodir ym mharagraff 3 o Femorandwm Rhif 3 a nifer y cymalau a restrir wedi hynny ym mharagraffau 9 i 13.

43. Mae paragraff 23 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi "Mae'n bosibl y bydd goblygiadau ariannol ond ni fydd hyn yn glir hyd nes y gweithredir y mesurau yn y Bil". Mae'r un datganiad wedi'i gynnwys ym mharagraff 31 o Femorandwm Rhif 4.

44. Fodd bynnag, yn y Memorandwm gwreiddiol ac ym Memorandwm Rhif 2, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru mewn perthynas â'r Bil.⁴⁹

⁴⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 4, paragraff 30.

Argymhelliad 2. Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, dylai'r Gweinidog esbonio pam mae'r sefyllfa o ran goblygiadau ariannol wedi newid.

⁴⁹ Llywodraeth Cymru, y Memorandwm gwreiddiol, paragraff 19; Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 2, paragraff 6.
